Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 53/2025

Dyddiad cyhoeddi: 18 Mehefin 2025

# Gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc: ystyriaethau wrth werthuso

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83715-821-8

Gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc: ystyriaethau wrth werthuso

Awdur: Milo Coffey, Prifysgol Aberystwyth, ar interniaeth ESRC gyda Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil Llawn: Coffey, M. 2025. Gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc: Ystyriaethau wrth werthuso. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 53/2025.

Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/gwasanaeth-mewngymorth-i-ysgolion-y-gwasanaethau-iechyd-meddwl-plant-ar-glasoed-ystyriaethau-gwerthuso

Cynhyrchwyd yr adroddiad hwn fel rhan o interniaeth PhD Llywodraeth Cymru a drefnwyd drwy Ysgol Graddedigion ESRC Cymru ar gyfer y Gwyddorau Cymdeithasol a Llywodraeth Cymru. Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o reidrwydd, rai Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 9247

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o ffigurau ..... 2

Geirfa ..... 3

1. Cefndir ..... 4

2. Methodoleg ..... 8

   2.1. Cwestiynau ymchwil ..... 8
   2.2. Cyfweliadau gyda thimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ..... 9
   2.3. Dadansoddi'r data ..... 10

3. Canfyddiadau ..... 11

   3.1. Gwahaniaethau o ran gwasanaethau rhwng byrddau iechyd ..... 12
   3.2. Pwysigrwydd newid diwylliant ..... 13
   3.3. Heriau sy'n gysylltiedig â data ..... 15
   3.4. Fframwaith gwerthuso ..... 16

4. Casgliadau ac argymhellion ..... 18

Atodiad B: Fframwaith gwerthuso ..... 20

## Rhestr o ffigurau

Ffigwr 1: Damcaniaeth newid ar gyfer rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ......7

## Geirfa

### CAMHS

Mae Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn cynnig cymysgedd o wasanaethau arbenigol gofal sylfaenol ac eilaidd y GIG i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl fel y'u diffinnir gan Fesur Iechyd Meddwl 2010. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig asesiad a thriniaeth pan fydd gan blant a phobl ifanc anawsterau emosiynol, ymddygiadol neu iechyd meddwl. Maent hefyd yn hyrwyddo llesiant emosiynol a gwasanaethau a thriniaeth ataliol ar gyfer iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Gellir cyfeirio plant a phobl ifanc a'u teuluoedd at Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc os ydynt yn ei chael hi'n anodd ymdopi â bywyd teuluol, yr ysgol neu'r byd ehangach.

### GDPR

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn fframwaith cyfreithiol sy'n gosod canllawiau i sefydliadau wrth gasglu a phrosesu gwybodaeth bersonol gan unigolion sy'n byw o fewn yr Undeb Ewropeaidd a'r tu allan iddo.

### INSET

Bwriad yr Hyfforddiant Mewn Swydd (i athrawon) yw cefnogi dysgu proffesiynol ymarferwyr addysg, gan eu galluogi i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad.

### ICC

Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yw'r asiantaeth iechyd cyhoeddus genedlaethol sy'n gweithio i amddiffyn a gwella iechyd a llesiant yn ogystal â lleihau anghydraddoldebau iechyd i bobl Cymru. Caiff Iechyd Cyhoeddus Cymru ei ariannu fel y corff sy'n gyfrifol, yn genedlaethol, am gydlynu gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, a hynny fel rhan o'i rôl yn gweithredu'r Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol.

### UCD

Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion yn lleoliadau addysgol amgen i addysg brif ffrwd dan reolaeth yr awdurdod lleol. Mae'r unedau'n cynnig addysg i blant sydd ddim yn gallu mynychu'r ysgol am amrywiaeth o resymau.

### ToC

Mae Damcaniaeth Newid (ToC) yn fethodoleg a ddefnyddir i gynllunio, monitro a gwerthuso mentrau polisi. Mae'n cynnwys datblygu fframwaith cynhwysfawr sy'n disgrifio ac yn darlunio sut a pham y disgwylir i newid dymunol ddigwydd mewn cyd-destun penodol.

# 1. Cefndir

Mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru yn flaenoriaeth. Cyn y pandemig, roedd tystiolaeth yn awgrymu bod iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc y DU wedi gwaethygu (Collishaw, 2014). Mae'r pandemig coronafeirws (COVID-19) a'r mesurau a gyflwynwyd i reoli'r haint wedi gwaethygu problemau iechyd meddwl a llesiant gwael ymhellach ymhlith plant a phobl ifanc. Mae data'r GIG ledled y DU yn dangos bod gan un o bob chwech (17%) o blant rhwng 6 ac 16 oed yn Lloegr anhwylder iechyd meddwl tebygol, i fyny o un o bob naw (12%) yn 2017, gyda thua dau o bob pump (39%) yn nodi bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu dros y cyfnod hwn. Gwelwyd dirywiad tebyg yn iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc yng Nghymru ers dechrau'r pandemig COVID-19.

Cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ei ymchwiliad, Cadernid Meddwl, ym mis Ebrill 2018 sy'n archwilio llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Tynnodd yr ymchwiliad sylw at y ffaith bod lleoliadau ysgol yn allweddol wrth hyrwyddo llesiant emosiynol ac iechyd meddwl da. Amlygwyd ei bod hi'n bwysig bod lleoliadau'n datblygu dull ysgol gyfan i gefnogi a hyrwyddo llesiant emosiynol a meddyliol sy'n ymgorffori llesiant yn ethos yr ysgol gyfan, y cwricwlwm, ac yn hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff. Fodd bynnag, nid athrawon yn unig sy'n gyfrifol am gyflwyno dull ysgol gyfan, gan fod hyn yn gofyn am gydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol o bob sector (iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, gwaith ieuenctid ac eraill).

Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r canllawiau statudol, Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol, ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion meithrin, cynradd, uwchradd a chanol, ynghyd ag unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a gynhelir, ac ysgolion arbennig ac awdurdodau lleol yng Nghymru. Diben y canllawiau yw rhoi cyfeiriad a thempled i ysgolion a lleoliadau addysg i ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol. Y bwriad yw cefnogi lleoliadau addysg i adolygu eu 'tirwedd llesiant' eu hunain, a thrwy agwedd o welliant parhaus, i ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'u gwendidau ac adeiladu ar eu cryfderau. Bwriad y Fframwaith yw cefnogi ac ategu'r Cwricwlwm i Gymru cenedlaethol newydd, ac yn benodol ei Faes Dysgu a Phrofiad, Iechyd a Llesiant. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) i weithredu fel y corff cyflawni i weithredu canllawiau'r fframwaith ledled Cymru.

Mae gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (a elwir yn wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn yr adroddiad hwn) yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i bryderon ynghylch iechyd meddwl a llesiant disgyblion ysgol, ac fe'i lansiwyd yn 2021. Fel y dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, nod Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yw meithrin y gallu mewn ysgolion i gefnogi anghenion iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc a staff yn well.

Yn benodol, nod Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yw:

- cefnogi athrawon i ddeall a chydnabod problemau iechyd meddwl yn ystod plentyndod yn well, a sut i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc hyn

- sicrhau mynediad at wasanaethau priodol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion iechyd meddwl mwy heriol neu ddifrifol, fel CAMHS neu wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol
- sicrhau bod systemau'n cael eu sefydlu i rannu gwybodaeth a threfniadau gofal rhwng CAMHS ac ysgolion ar gyfer y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth dwysach, a bod protocolau uwchgyfeirio ar waith yn ôl anghenion y person ifanc.

Cyn cyflwyno Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ledled Cymru, cynhaliwyd rhaglen beilot mewn tair ardal o fis Medi 2018 hyd at haf 2021. Roedd yr ardaloedd hyn yn cwmpasu tri awdurdod lleol yn ne a chanolbarth Cymru (Blaenau Gwent, Torfaen a De Powys); un yng ngorllewin Cymru (Ceredigion); a dau yng ngogledd Cymru (Wrecsam a Sir Ddinbych).

Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr elusen People & Work i gynnal gwerthusiad o raglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021. Nod y gwerthusiad oedd deall sut cafodd y gwasanaeth ei gyflwyno; a gafodd yr amcanion a gynlluniwyd eu cyflawni; a sut roedd rhanddeiliaid ledled yr ardaloedd peilot yn deall y gwasanaeth. Defnyddiwyd 'dulliau cymysg' i werthuso gweithrediad y gwasanaeth, a oedd yn cynnwys ymchwil ddesg, arolygon staff a chyfweliadau ansoddol, ac ymweliadau ag ysgolion.

Arweiniodd y gwerthusiad at ddatblygu damcaniaeth newid (ToC) yn amlinellu'r mecanweithiau i greu newid a'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Dangosir hyn yn Ffigur 1. Cyfeirir at hyn fel ToC Mewngymorth i Ysgolion CAMHS wedi hyn, ac mae'n parhau i fod y model ToC mwyaf cyfredol o wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Felly, fe'i defnyddiwyd fel sail i ddatblygu'r cwestiynau ymchwil a'r fframwaith gwerthuso drafft yn y gwaith ymchwil hwn.

Canfu'r gwerthusiad o'r rhaglen beilot fod gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS wedi'i gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd yn y tair ardal beilot. Cafwyd mwy o bwyslais ar hyfforddiant ac ymgynghori yn y de, y canolbarth a'r gorllewin, tra cafwyd mwy o bwyslais ar lesiant staff yn y gogledd. Ym mhob ardal, canfuwyd bod ansawdd yr hyfforddiant yn uchel ac yn cael ei werthfawrogi gan staff ysgol. Dywedodd llawer o staff eu bod nhw'n teimlo'n fwy abl i gefnogi iechyd meddwl a llesiant disgyblion eu hunain yn hytrach na'u cyfeirio at arbenigwyr, a bod hynny, yn ei dro, wedi cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant eu hunain. Ar ben hynny, roedd presenoldeb swyddogion cyswllt CAMHS yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion a gwasanaethau arbenigol pan oedd eu hangen.

Effeithiwyd ar effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigiwyd yn ystod y rhaglen beilot gan y ffyrdd yr oedd ysgolion yn ymwneud â'r rhaglen, yn ogystal â gallu staff ysgol i roi'r hyn a ddysgwyd ar waith yn eu hysgolion. Felly, argymhellodd y gwerthusiad y dylai Llywodraeth Cymru ymroi i ymchwilio ymhellach i ddeall a mapio'r sgiliau sydd eu hangen ar staff mewn gwahanol rolau mewn ysgolion. Argymhellodd hefyd fod angen gwell ffyrdd o ysgogi ysgolion wrth weithredu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.

Canfuwyd bod gweithio gydag ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS wedi helpu staff i ymdopi'n well â'u straen eu hunain drwy leddfu rhywfaint o'r pwysau arnynt a gwneud iddynt deimlo'n fwy parod i ddelio â phroblemau llesiant eu disgyblion. Fodd bynnag,

pwysleisiodd y gwerthusiad hefyd nad yw rhaglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, o bosibl, yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â phwysau iechyd meddwl a llesiant staff ysgol. Mae hyn oherwydd mai canolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc y mae'r gwasanaeth yn bennaf. Felly, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i ystyried yr angen i gynnig mynediad at gymorth iechyd meddwl i staff ysgol, a'i hyfywedd.


Nododd y gwerthusiad fod ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS dan bwysau o ran capasiti yn ystod y rhaglen beilot. Priodolwyd hyn i'r nifer fawr o ysgolion a staff a gefnogwyd. Nodwyd risg y gallai ansawdd a maint y ddarpariaeth ddioddef, yn enwedig os yw ymarferwyr yn rhoi cymorth iechyd meddwl a llesiant uniongyrchol i blant a phobl ifanc neu staff. Awgrymwyd, felly, y gallai fod angen 'neilltuo' rôl Mewngymorth i Ysgolion CAMHS i sicrhau bod ei rôl adeiladu capasiti yn cael ei chadw, yn enwedig gan fod gwasanaethau eraill yn bodoli a all gynnig cymorth iechyd meddwl a llesiant mwy uniongyrchol. Yn ogystal, tynnodd y gwerthusiad sylw at yr angen i ehangu darpariaeth Gymraeg y gwasanaeth er mwyn cynnig cyfle i ysgolion ymwneud â gwasanaethau ymgynghori a chysylltu yn Gymraeg.

At ei gilydd, cafodd rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ei chroesawu gan ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ardaloedd y rhaglen beilot. Roedd hefyd yn effeithiol wrth wella sgiliau a hyder staff wrth ddelio ag anghenion iechyd meddwl a llesiant disgyblion. Yn dilyn y rhaglen beilot, cyflwynwyd Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ledled Cymru, fel yr amlinellwyd yn Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru: diweddariad ym mis Mehefin 2021. Mae pob bwrdd iechyd yn gweithredu ei dîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ei hun, ac fe gaiff Iechyd Cyhoeddus Cymru ei ariannu fel y corff sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwasanaeth yn genedlaethol, a hynny fel rhan o'i rôl yn gweithredu canllawiau'r fframwaith dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal ymarfer i gasglu gwybodaeth gan fyrddau iechyd am eu gwasanaethau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, ac mae disgwyl i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi yn ystod haf 2025. Disgwylir i'r ymarfer hwn ddisgrifio'r gorgyffwrdd a'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth rhwng byrddau iechyd a strwythur y timau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn.

Ar ôl cyflwyno'r rhaglen yn genedlaethol, mae'n bwysig ystyried sut gellir gwerthuso Mewngymorth i Ysgolion CAMHS i gefnogi gwasanaethau i barhau i wella. Byddai hyn yn cynnwys deall sut caiff y gwasanaethau eu gweithredu ar draws gwahanol gyd-destunau a pha ganlyniadau y mae'n eu cyflawni. Nod yr ymchwil oedd cefnogi'r broses hon drwy:

- adnabod ac archwilio ystyriaethau allweddol pwysig i werthuso gweithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS
- datblygu fframwaith gwerthuso drafft sy'n amlinellu dangosyddion a ffynonellau data posibl a allai fod yn sail i fonitro a gwerthuso'r gwasanaeth yn y dyfodol
- Cafodd y darn presennol o waith ei wneud gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi fel rhan o interniaeth PhD.

**Ffigwr 1: Damcaniaeth newid ar gyfer rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.**




Disgrifiad o Ffigur 1: Mae'r ddamcaniaeth newid yn amlinellu'r mewnbwn, y gweithgareddau, y cyfranogwyr, a chanlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Ymhlith rhai o'r gweithgareddau mae mapio a chynnig hyfforddiant a chymorth i staff ysgol ynghylch iechyd meddwl a sefydlu llwybrau am fynediad cyflym at gyngor iechyd meddwl arbenigol. Ymhlith rhai o'r canlyniadau hirdymor wedyn mae sicrhau bod staff ysgol yn fwy hyderus i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl, llesiant ac addysgol disgyblion a'u cefnogi; bod staff ysgol yn nodi llai o straen; a bod atgyfeiriadau at wasanaethau yn fwy priodol.

Ffynhonnell: Gwerthusiad o Raglen Beilot Mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS): adroddiad terfynol, People & Work

# 2. Methodoleg

Er mwyn cyflawni amcanion yr ymchwil, defnyddiwyd Damcaniaeth Newid Mewngymorth i Ysgolion CAMHS o'r gwerthusiad o'r rhaglen beilot (gweler Ffigur 1) i lywio'r gwaith o ddatblygu cwestiynau ymchwil addas, a'r fframwaith gwerthuso a gyflwynir yn Atodiad B. Y Ddamcaniaeth Newid hon yw'r fframwaith mwyaf cyfredol o raglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

## 2.1. Cwestiynau ymchwil

Lluniwyd y cwestiynau ymchwil canlynol i archwilio gweithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn seiliedig ar y Ddamcaniaeth Newid. Fel y gwelir yn Ffigur 1, datblygwyd y cwestiynau ymchwil hynny a restrir o dan 'gweithrediad' yn seiliedig ar y gweithgareddau allbwn, tra bod y rhai o dan 'effaith' yn ymwneud â chanlyniadau.

**Gweithrediad**

- Lefel ymgysylltiad yr ysgol
  - sut gellir mesur amlder yr ymgysylltu rhwng ysgolion a Mewngymorth i Ysgolion CAMHS?
  - sut gellir mesur pa mor hawdd yw mynediad at wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS i staff ysgol?
  - sut gellir mesur amseroedd ymateb Mewngymorth i Ysgolion CAMHS?
  - sut gellir asesu argaeledd gweithwyr cyswllt Mewngymorth i Ysgolion CAMHS?
- Cyflwyno hyfforddiant
  - sut gellir mesur cyfaint ac amlder yr hyfforddiant a gynigir i staff ysgol?
  - sut gellir asesu'r mathau o hyfforddiant a gynigir i staff ysgol?
  - sut gellir asesu presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi?
  - sut gellir mesur cyrhaeddiad hyfforddiant ar draws staff o wahanol rolau mewn ysgolion?
  - sut gellir mesur effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigir i staff ysgol wrth fynd i'r afael ag anghenion ysgolion unigol?
  - sut gellir mesur ansawdd a defnyddioldeb canfyddedig yr hyfforddiant a gynigir i staff ysgol?
  - sut gellir asesu i ba raddau yr ymgysylltodd ysgolion â chyfleoedd am hyfforddiant?
- Cyngor ac ymgynghoriad arbenigol
  - sut gellir mesur amlder mynediad staff ysgol at ganllawiau iechyd meddwl a llesiant pwrpasol gan ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS?
  - sut gellir mesur ansawdd a defnyddioldeb canfyddedig cyngor pwrpasol a gynigir i staff ysgol?
- Cysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol ac atgyfeiriadau iddynt
  - sut gellir mesur amlder atgyfeiriadau plant a phobl ifanc at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol?
  - sut gellir asesu defnyddioldeb canfyddedig cymorth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS i athrawon sy'n gwneud atgyfeiriadau at wasanaethau arbenigol?

  - sut gellir mesur effeithiolrwydd cyfeirio Mewngymorth i Ysgolion CAMHS at wasanaethau iechyd meddwl a llesiant lleol?
- beth yw effeithiau gwahanol nodweddion ysgol (e.e. rhanbarth, math o ysgol, iaith addysgu, oedran dysgwyr) wrth fesur yr uchod?
- a oes gweithgareddau eraill a gyflawnir gan dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS y tu allan i'r gweithgareddau craidd a amlygwyd yn y model rhesymeg sydd wedi dod i'r amlwg?

**Effaith**

- Sut gellir mesur effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar:
  - ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgol o faterion iechyd meddwl yn ystod plentyndod
  - ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgol o sut i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc
  - hyder staff ysgol i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc
  - lles emosiynol a meddyliol disgyblion
  - lles emosiynol a meddyliol staff ysgol a straen
  - ymwybyddiaeth, gwybodaeth a dealltwriaeth staff ysgol o bartneriaethau â gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a llwybrau atgyfeirio
  - hyder staff ysgol i gysylltu â disgyblion a chyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol
  - priodoldeb ac effeithiolrwydd atgyfeiriadau at wasanaeth iechyd meddwl arbenigol
  - rhannu arferion da rhwng ysgolion
- sut gellir mesur i ba raddau y mae effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn amrywio yn ôl nodweddion yr ysgol (e.e. cyfnod, rhanbarth, cyfrwng iaith)?

## 2.2. Cyfweliadau gyda thimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig ag arweinwyr gwasanaethau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ym mhob bwrdd iechyd. Cynhaliwyd wyth cyfweliad i gyd: un gyda chynrychiolydd o dîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS pob bwrdd iechyd, a dau gyfweliad ar wahân gydag aelodau tîm un bwrdd iechyd.

Pwrpas y cyfweliadau oedd mynd i'r afael â'r ddau nod ymchwil. Yn gyntaf, fe'u defnyddiwyd i fynd i'r afael â'r cwestiynau ymchwil uchod sy'n ceisio adnabod ac archwilio ffactorau a oedd yn bwysig wrth ystyried sut i werthuso gweithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Yn ail, helpodd yr wybodaeth a gasglwyd o'r cyfweliadau i lywio datblygiad y fframwaith gwerthuso cychwynnol er mwyn sicrhau bod hwn wedi'i seilio ar wybodaeth a phrofiadau ymarferwyr.

I ddechrau, rhannodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wahoddiad i gymryd rhan mewn cyfweliadau ag arweinwyr tîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ym mhob bwrdd iechyd. Rhannwyd hysbysiad preifatrwydd hefyd. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu sut caiff data eu casglu, eu cadw a'u defnyddio o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR). Yna cysylltodd arweinwyr tîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ag ymchwilwyr o'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, a threfnwyd cyfweliadau.

Datblygwyd canllaw ar bynciau'r cyfweliad yn unol ag amcanion y prosiect a'r cwestiynau ymchwil (gweler Atodiad A). Nod y rhain oedd casglu profiadau'r cyfweleion o weithio fel rhan o dîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS; i greu dealltwriaeth o arferion monitro sydd eisoes ar waith; ac i gasglu barn y cyfweleion ar ffyrdd o fesur a gwerthuso gweithrediad ac effaith y rhaglen.

Cynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein drwy Microsoft Teams, gan bara tua 60 munud. Ar ddechrau'r cyfweliad, cafodd y cyfweleion eu cyfarch a'u hatgoffa o bwrpas y cyfweliad; sut câi'r wybodaeth a gesglir ei defnyddio; a bod ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg. Cytunodd yr holl gyfranogwyr i'r cyfweliadau gael eu recordio at ddibenion trawsgrifio a dadansoddi.

## 2.3. Dadansoddi'r data

Dadansoddwyd y data yn ddiddwythol gan ddefnyddio dadansoddiad fframwaith (Ritchie & Spencer, 1994) yn dilyn y broses saith cam a amlinellir gan Gale et al (2013). Datblygwyd y dull hwn ar gyfer ymchwil iechyd a pholisi lle mae amcanion ymchwil wedi'u diffinio'n glir a lle mae sawl ymchwilydd yn cydweithio ar un prosiect (Gale et al 2013). Roedd hyn yn cynnwys diffinio categorïau ar gyfer gweithrediad ac effaith y gwasanaeth, yn seiliedig ar Ddamcaniaeth Newid Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, er mwyn arwain y gwaith o ddadansoddi'r cyfweliadau.

Ychwanegwyd categori pellach i archwilio effaith Damcaniaeth Newid Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar ddiwylliannau ysgolion o amgylch iechyd meddwl a llesiant. Cynhwyswyd y categori hwn yn seiliedig ar sgyrsiau cwmpasu gyda swyddogion polisi, ymchwilwyr Llywodraeth Cymru, a swyddogion o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn olaf, cynhwyswyd categori cyffredinol i godio ar gyfer y dulliau, y ffynonellau data a'r dangosyddion y gellid eu defnyddio i fesur gweithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

Arweiniodd y broses hon at y 15 categori canlynol ar draws gweithrediad y gwasanaeth, effaith y gwasanaeth, a'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddadansoddi data'r cyfweliadau:

Gweithrediad Mewngymorth i Ysgolion CAMHS

- Ymgysylltiad: ymgysylltiad ysgolion â'r gwasanaeth
- Hyfforddiant: yr hyfforddiant a roddwyd
- Cyngor pwrpasol: ymgynghoriadau a chyngor pwrpasol arall a roddwyd i ysgolion
- Cyfeirio ac atgyfeiriadau: cyfeirio staff ysgol at adnoddau ac atgyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau eraill
- Cyrhaeddiad: gwahaniaethau rhwng byrddau iechyd o ran gweithrediad y gwasanaeth
- Arall: agweddau eraill ar weithrediad y gwasanaeth

Effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS

- Gwybodaeth a dealltwriaeth: gwybodaeth a dealltwriaeth athrawon o faterion iechyd meddwl a llesiant
- Hyder: hyder athrawon ynghylch materion iechyd meddwl a llesiant

- Straen athrawon: straen athrawon sy’n gysylltiedig ag iechyd meddwl a llesiant disgyblion
- Cyfeirio ac atgyfeiriadau: cyfeirio staff ysgol at adnoddau a chyfeirio plant a phobl ifanc at wasanaethau eraill
- Diwylliant: diwylliannau ysgolion mewn perthynas ag iechyd meddwl a llesiant
- Rhannu gwybodaeth: rhannu gwybodaeth rhwng gwasanaethau
- Cyrhaeddiad: gwahaniaethau rhwng byrddau iechyd o ran effaith
- Arall: effeithiau eraill y gwasanaeth i Ysgolion

Dulliau, ffynonellau data, a dangosyddion

- Dulliau, ffynonellau data, a dangosyddion i fesur ac asesu sut y gweithredwyd Mewngymorth i Ysgolion CAMHS a’i effeithiau

Ar ôl cynnal y cyfweliadau, cawsant eu trawsgrifio er mwyn eu dadansoddi a’u hadolygu i sicrhau cywirdeb ac i ymgyfarwyddo â’r data. Cafodd dyfyniadau perthnasol ym mhob trawsgrifiad eu hamlygu a’u codio yn seiliedig ar y categorïau, cyn i wybodaeth gael ei chasglu ar draws yr holl gyfweleion gan ddefnyddio Microsoft Excel. Yna crynhowyd y data ar gyfer pob categori, gan gadw ystyr geiriau gwreiddiol y cyfweleion, gan gynnwys dyfyniadau byr uniongyrchol, yn unol â chanllawiau Gale et al (2013). Llywiodd y dull diddwythol hwn ddatblygiad themâu ehangach a ddaeth i’r amlwg o’r data.

Er mwyn adnabod y themâu hyn, archwiliwyd patrymau ar draws y data a godiwyd a oedd yn gysylltiedig â’r gwerthusiad o wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Roedd hyn yn cynnwys adolygu’r categorïau diffiniedig i archwilio sut y disgrifiodd gwahanol gyfranogwyr agweddau allweddol ar weithrediad, effaith, a ffyrdd posibl o fesur y rhain. Datblygwyd set gychwynnol o themâu drwy nodi syniadau a oedd yn codi dro ar ôl tro yn y data. Yna adolygwyd a mireiniwyd y themâu hyn trwy broses ailadroddus i sicrhau eu bod wedi’u diffinio’n glir, yn eglur, ac wedi’u seilio ar y data. Adolygodd ail godwr y themâu’n annibynnol i wirio am gysondeb. Roedd y broses ailadroddus hon yn caniatáu inni ddiffinio set o themâu oedd yn dal yr ystyriaethau mwyaf amlwg er mwyn gwerthuso’r gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon a chadarn.

Ar ôl dadansoddi’r cyfweliadau, datblygwyd y fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar y categorïau a’r themâu, a gafodd eu mireinio ymhellach er mwyn nodi dangosyddion data penodol. Er enghraifft, ychwanegwyd categori pellach i adlewyrchu bod rhai timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn cynnig cymorth i blant a phobl ifanc a’u teuluoedd. Ar gyfer pob categori, nodwyd dangosyddion posibl ochr yn ochr â ffynonellau data posibl ar eu cyfer a gwybodaeth am bwy y byddai’r data perthnasol yn cael eu casglu ganddo (e.e., timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, staff ysgol, plant a phobl ifanc). Cyflwynir y fframwaith gwerthuso yn Atodiad B.

# 3. Canfyddiadau

Nododd dadansoddiad o’r cyfweliadau â staff Mewngymorth i Ysgolion CAMHS dair thema sy’n bwysig wrth ystyried sut i fesur ac asesu gweithrediad ac effaith y gwasanaethau:

- gwahaniaethau o ran gwasanaethau rhwng byrddau iechyd
- pwysigrwydd gwybodaeth ansoddol
- heriau sy'n gysylltiedig â data

## 3.1. Gwahaniaethau o ran gwasanaethau rhwng byrddau iechyd

Yn ystod y cyfweliadau, daeth i'r amlwg bod yna wahaniaethau mawr rhwng y byrddau iechyd o ran y gwasanaethau a gynigir gan dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Yn dilyn y rhaglen beilot, mae'r gwasanaethau hyn wedi esblygu'n organig mewn ymateb i anghenion lleol.

Un o'r gwahaniaethau cliriaf rhwng y byrddau iechyd oedd p'un a oedd pob gwasanaeth yn cynnig cymorth iechyd meddwl a llesiant yn uniongyrchol i blant a phobl ifanc. Nid dyma oedd nod gwreiddiol Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn y rhaglen beilot. Adroddodd arweinwyr y gwasanaethau mewn sawl bwrdd iechyd eu bod nhw'n cynnig gwasanaethau megis "asesiadau a rhai ymyriadau lle mae hynny'n teimlo'n ddefnyddiol [ac] yn berthnasol i'r plentyn", "grwpiau dosbarth cyfan" a "grwpiau ysgol gyfan", "un i un gyda'r plant", ynghyd â grwpiau gwyliau'r haf. Cafodd y rhain groeso "eithaf da iawn".

Roedd gwahaniaethau hefyd yn amlwg yn y graddau yr oedd timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ym mhob bwrdd iechyd yn cynnig cymorth i fynd i'r afael ag anghenion iechyd meddwl a llesiant athrawon a staff addysg eraill. Mae rhai timau, gan ddilyn esiampl y rhaglen beilot, wedi cyfyngu eu cyfranogiad i gefnogi staff "mewn perthynas ag anghenion llesiant plant a phobl ifanc" ac felly nid ydynt wedi cynnig cymorth y tu hwnt i hyfforddiant ac ymgynghoriadau. Fodd bynnag, tynnodd eraill sylw at y posibilrwydd y bydd angen cymorth ychwanegol gan fod "ffactorau eraill ar waith" sy'n effeithio ar lesiant athrawon, megis "toriadau mawr mewn ysgolion" a "llawer o bolisïau a gweithdrefnau y mae'n rhaid iddyn nhw eu rhoi ar waith". Esboniodd un arweinydd tîm ei fod wedi dechrau cynnal sesiynau galw heibio arbrofol i athrawon siarad ag ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS am eu hanghenion llesiant eu hunain. Mae hyn wedi cael croeso "da iawn" ac mae cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth hon. I'r gwrthwyneb, roedd tîm arall yn arfer cynnig ymgynghoriadau a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi athrawon, ond maent bellach yn symud i ffwrdd o'r dull hwn i ganolbwyntio ar anghenion plant a phobl ifanc.

Ffordd arall y mae gwasanaethau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn wahanol yw eu darpariaeth i wahanol fathau o ysgolion. Yn rhaglen beilot Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, rhoddwyd blaenoriaeth i gefnogi ysgolion uwchradd, a chyfyngwyd y cynnig i ysgolion cynradd i ddisgyblion blwyddyn 6. Fodd bynnag, yn y cyfweliadau, eglurodd rhai arweinwyr tîm eu bod nhw bellach yn cynnig cymorth i ysgolion cynradd yn ogystal â cholegau addysg bellach. Adroddwyd gan y cyfweleion fod cefnogi ysgolion cynradd wedi cyflwyno her mewn rhai byrddau iechyd: "am fod yna gymaint o ysgolion cynradd, allwn ni ddim agor y llifddorau". Mae hyn wedi arwain at dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn mabwysiadu dull mwy 'ad hoc' wrth gefnogi ysgolion cynradd: "… os yw ysgol yn cysylltu â ni, yna rydyn ni'n ymgysylltu â nhw ar bob cyfrif. Neu efallai y bydd plentyn yn dod i mewn i'n gwasanaeth ac, wyddoch chi, os na fyddwn ni'n ei dderbyn neu os ydyn ni'n ei gyfeirio [at wasanaeth arall], efallai y byddwn ni'n gofyn, wyt ti'n hapus i ni gysylltu â dy ysgol di?" Fodd

bynnag, fel yr eglurodd arweinydd tîm arall: "mae'n dibynnu ar yr ysgol gynradd mewn gwirionedd" a ddylid ymgysylltu â gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

Mewn rhai byrddau iechyd, adroddodd timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS eu bod wedi canfod "y byddai'r ysgolion cynradd yn derbyn y cynnig am hyfforddiant [yn fwy] na'r ysgolion uwchradd". Roedd hyn oherwydd bod ysgolion cynradd, yn ôl y cyfweleion, yn "llawer mwy hyblyg" nag ysgolion uwchradd o ran y dyddiau sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant, a phryd y gallai staff fod ar gael i ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS roi hyfforddiant.[1]

Un canlyniad i'r gwahaniaethau rhwng byrddau iechyd o ran y gwasanaethau a gynigir yw y gall achosi problemau lle mae ysgolion yn gweithio ar draws sawl bwrdd iechyd. Rhoddodd un arweinydd tîm enghraifft lle roedd y tîm wedi cefnogi coleg addysg bellach yn ddiweddar yn dilyn marwolaeth myfyriwr. Mae gan y coleg hwn gampysau o fewn bwrdd iechyd y tîm hwnnw yn ogystal ag un arall, ond nid oedd gan dîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn y bwrdd iechyd arall "unrhyw gymorth na … chyfleoedd i drafod hynny" ar waith. Mae'r enghraifft hon yn tynnu sylw at sut gall yr amrywiol wasanaethau gan wahanol dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS effeithio ar y cymorth y mae sefydliadau fel y coleg hwn yn ei gael. Disgrifiodd yr un cyfwelai broblem debyg hefyd lle mae disgyblion yn byw mewn un ardal bwrdd iechyd ond yn mynychu ysgol mewn un arall. Gall hyn greu problemau lle mae'r gwasanaethau a gynigir gan raglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn y ddwy ardal yn wahanol. Gall hyn, yn ei dro, arwain at ddryswch i'r rhai sy'n dymuno cael mynediad at gymorth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

## 3.2. Pwysigrwydd newid diwylliant

Tynnodd y cyfweleion sylw at y rôl bwysig y mae Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn ei chwarae o ran newid y diwylliant mewn ysgolion o amgylch llesiant emosiynol a meddyliol. Adroddwyd bod ysgolion yn ymwneud fwyfwy â'r dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol a Mewngymorth i Ysgolion CAMHS "mewn gweithred yn ogystal â geiriau", a bod mwy o staff ysgol bellach yn mynd ati i geisio cymorth gan y gwasanaeth. Nododd y cyfweleion, dros amser, y bu newid amlwg mewn diwylliant, gyda staff yn dod yn fwy parod i gael sgyrsiau am lesiant ac yn "hyderus … wrth gefnogi anghenion iechyd meddwl lefel isel". Amlygwyd hefyd fod Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn helpu staff ysgol i gydnabod "nad rhywbeth i ddisgyblion yr ysgol yn unig yw iechyd meddwl [a'i fod] yn ddull ysgol gyfan". Amlygodd yr ymatebion hyn sut y canfyddir bod Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn cyfrannu at newid diwylliant mewn ysgolion tuag at fwy o onestrwydd a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd llesiant emosiynol a meddyliol.

Caiff gwybodaeth feintiol ei chasglu gan rai timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS y gellir ei defnyddio i dybio newid diwylliant, megis effaith y gwasanaeth ar wybodaeth, dealltwriaeth a hyder athrawon ynghylch iechyd meddwl a llesiant. Fodd bynnag, tynnodd sawl cyfwelai sylw at yr her o fesur effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar ddiwylliant ysgolion. Nodwyd bod newid diwylliant "yn cymryd cryn amser". Amlygwyd hefyd fod yna

[1] Er nad yw gofynion diwrnodau HMS yn amrywio yn ôl sector ysgol, mae ysgolion yn trefnu eu dysgu proffesiynol eu hunain i ymateb i'w Cynllun Datblygu Ysgol eu hunain. Gall hyn gyfrif am y gwahaniaethau a brofir gan dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

“lawer o bethau’n effeithio ar newid diwylliant”, felly mae’n anodd rhoi sylw i gyfraniad penodol Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn unig. Siaradodd llawer o’r cyfweleion am gyfyngiadau defnyddio data meintiol yn unig i gofnodi’r newidiadau diwylliannol cymhleth hyn, oherwydd canfuwyd “nad oes modd gwneud hynny gyda thic na rhif”. Nododd un arweinydd tîm nad yw dulliau meintiol yn rhoi digon o fanylion a chyd-destun i gofnodi newid diwylliant ac effaith ehangach Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

Yn ôl y cyfweleion hefyd, gellir camddehongli gwybodaeth feintiol wrth asesu gweithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, a gallai hyn hefyd fod yn berthnasol i’r ymdrechion o gofnodi newid diwylliant. Er enghraifft, yn ôl un arweinydd tîm, er y “byddai’n edrych fel pe bai [awdurdod lleol 1] yn ymgysylltu mwy” â Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, mae yna fwy o ysgolion yn yr awdurdod lleol hwn hefyd nag yn yr awdurdod arall a gwmpesir gan y bwrdd iechyd. Esboniodd arweinydd tîm arall “y bydd ysgolion weithiau eisiau ymgysylltu ychydig mwy â ni pan fyddan nhw’n gwybod bod ganddyn nhw arolygiad ar y gweill oherwydd ei fod yn ticio’r blwch”. Yn yr un modd, gall cynnwys gweithgareddau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS amrywio o fewn un bwrdd iechyd yn dibynnu ar ffactorau fel ymgysylltiad neu anghenion gwahanol ysgolion. Gall hyn “fod ychydig yn anodd pan fyddwch chi’n edrych ar niferoedd yn unig oherwydd gallai edrych fel bod gennym ni lwyth o ymgynghoriadau yn [awdurdod lleol 1] a dim llawer yn [awdurdod lleol 2] … tra bo’r …[ymgynghoriadau yn awdurdod lleol 2] efallai ychydig yn fwy manwl”. Adroddwyd bod rhai ysgolion yn “gwneud llawer mwy o’r hyfforddiant” ac yn “ymwneud yn llwyr â’r dull ysgol gyfan”, tra bod eraill o bosibl yn cael llawer o ymgynghoriadau, ond maent yn “ymgynghoriadau cyflym, cyflym a ffyrnig” oherwydd bod yr ysgol yn “diffodd tân yn gyson”.

Yn hytrach, tynnodd y cyfweleion sylw at bwysigrwydd mesurau ansoddol i gofnodi newid diwylliant a hefyd i helpu i roi unrhyw wybodaeth feintiol mewn cyd-destun. Nododd llawer o’r cyfweleion werth ymarferwyr yn rhoi adroddiadau naratif o foment neu ddigwyddiadau penodol sy’n tynnu sylw at effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Mae llawer o fyrddau iechyd wedi dechrau defnyddio’r dull ansoddol hwn fel rhan o’u gwaith monitro arferol ac roeddent yn frwdfrydig amdano yn y cyfweliadau, gan sôn am sut mae’n eu galluogi i gofnodi effeithiau “na fyddech chi, o reidrwydd, yn gallu eu dal ar holiadur”.

Bu ystyriaeth bellach i sut y gellid casglu’r wybodaeth ansoddol hon i gofnodi newid diwylliant mewn ysgolion. Cofiodd un arweinydd tîm sut y gwnaeth ymarferydd arsylwi grŵp o blant yn chwarae rôl am sesiwn ar emosiynau a oedd wedi’i chyflwyno i’r plant gan wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS y diwrnod cynt. Gwelwyd yr arsylwadau hyn fel ffordd bosibl o ddeall effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar ddiwylliant iechyd meddwl ysgolion, a all fod yn “un anodd i geisio ei mesur fel arall”. Fel arall, fel yr eglurodd arweinydd tîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS arall, pan welwyd moment o effaith, “os byddwch chi wedyn yn gofyn i athro lenwi ffurflen, dyw hynny ddim yn ymarferol yn yr eiliad honno”, ac erbyn i ffurflen adborth gael ei chwblhau, efallai nad oes modd cofio’r wybodaeth mwyach. Mae rhai timau hefyd wedi ceisio, neu’n ystyried, defnyddio grwpiau ffocws fel ffordd amgen o gasglu gwybodaeth amrywiol a manwl am effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Fodd bynnag, er gwaethaf “cwpl” o athrawon yn mynegi diddordeb, pan geisiwyd cyflawni’r dull hwn, “dim ond un neu ddau berson a ddaeth o’r un ysgol, felly doedd o ddim yn arbennig o lwyddiannus”.

## 3.3. Heriau sy'n gysylltiedig â data

Yn ystod y cyfweliadau, daeth llawer o heriau i'r amlwg mewn perthynas â chasglu, cofnodi ac adfer data am weithrediad ac effaith Mewngymorth i Ysgolion CAMHS.

Yn gyntaf, daeth yn amlwg fod gwahanol ddata yn cael eu casglu ym mhob bwrdd iechyd. Gallai hyn fod oherwydd yr amrywiad yn y gwasanaethau a gynigir, ac o ganlyniad i wahaniaethau yn nyluniad systemau monitro byrddau iechyd. Daeth i'r amlwg hefyd fod gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae timau ym mhob bwrdd iechyd yn casglu data i fonitro'r gwasanaeth a gynigir. Mae'r amrywiad hwn yn y ffordd y caiff data eu casglu yn atal y broses o gasglu a chymharu data ar draws byrddau iechyd er mwyn gwerthuso'r gwasanaeth yn genedlaethol. Er enghraifft, nododd sawl un o'r arweinwyr eu bod yn defnyddio holiaduron adborth i gasglu data am y sesiynau hyfforddi a gynhelir ganddynt, ond nid oedd cynnwys y ffurflenni hyn wedi'i safoni ar draws y byrddau iechyd. Ar ben hynny, er bod rhai timau hefyd wedi casglu adborth am ymgynghoriadau, ni wnaeth eraill gan y teimlwyd y gallai gwneud hynny "ddychryn" staff addysg ac na fyddai'n rhoi cyfle i'r staff roi unrhyw gyngor a roddir gan ymarferwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar waith.

Efallai fod heriau hefyd o ran sut caiff data eu cofnodi a'u dehongli. Er enghraifft, eglurodd un arweinydd tîm fod pob gweithgaredd a gyflwynir gan wasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn cael ei gofnodi "p'un a oedd yn ymgynghoriad, cyngor, cyswllt, cyfeirio", ond bu adegau pan nad yw ymarferwyr yn gwybod "pa un i'w dicio" os nad oedd y gweithgaredd yn ffitio'n daclus i un o'r categorïau hyn. Enghraifft a roddodd yr un cyfwelai o hyn oedd y canlynol: "efallai y bydd nyrs ysgol yn estyn allan ac yn dweud, 'oes modd i mi gael sgwrs gyflym?' Rydych chi'n cael sgwrs, ond beth ydych chi'n ei gofnodi wedyn?" Lle mae sawl tîm yn ymwneud â'r gwaith o gwmpasu sawl awdurdod lleol, gall hyn arwain at sefyllfa lle mae'r data'n dod yn annilys oherwydd bod pob tîm awdurdod lleol yn dilyn protocol gwahanol ar gyfer sut i gofnodi gweithgareddau, a arweiniodd yr arweinydd tîm i adrodd "dyw hi ddim yn gwneud llawer o synnwyr".

Siaradodd staff Mewngymorth i Ysgolion CAMHS hefyd am heriau o ran storio data; cododd staff bryderon ynghylch adfer a rhannu'r data y maent yn eu casglu am y gwasanaeth. Mae rhai timau'n defnyddio systemau gwybodaeth cleifion i storio'r data y maent yn eu casglu am y gwasanaeth, gan gynnwys cofnodion ymgysylltu, ymgynghoriadau ac atgyfeiriadau. Fodd bynnag, adroddwyd bod "cael yr wybodaeth yn ôl [o'r system] ychydig yn fwy o her" oherwydd nad yw'r adroddiadau y mae'r system yn eu cynhyrchu yn "edrych yn daclus wrth ddod allan". Gall hyn ei gwneud hi'n anodd eu deall a'u dehongli. Ar ben hynny, adroddodd rhai fod y systemau a ddefnyddir gan sefydliadau addysg ac iechyd yn aml yn wahanol ac "nad ydyn nhw'n siarad â'i gilydd", sy'n gwneud rhannu gwybodaeth am ddisgyblion yn anodd. Caiff y broses hon ei chymhlethu gan wahanol weithdrefnau i gael caniatâd i rannu gwybodaeth rhwng y sectorau iechyd ac addysg, a all, yn ôl un arweinydd tîm, "fod ychydig yn anodd". Fodd bynnag, os oes angen mwy o wybodaeth, yna gellir ceisio caniatâd gan rieni a theuluoedd.

Nododd llawer o'r cyfweleion broblemau ehangach hefyd ynghylch defnyddio holiaduron adborth i fonitro Mewngymorth i Ysgolion CAMHS. Adroddwyd gan lawer o arweinwyr tîm fod y cyfraddau ymateb i'r holiaduron hyn wedi bod "braidd yn anwastad", yn enwedig pan

fydd ffurflenni'n cael eu hanfon allan ar ddiwedd y tymor "pan fydd popeth dan straen ac [athrawon] eisiau gwyliau". Gall cyfraddau ymateb isel i holiaduron arwain at duedd yn y canlyniadau, oherwydd efallai na fydd barn yr athrawon sy'n ymateb yn gynrychioliadol o'r holl rai a gymerodd ran mewn hyfforddiant neu ymgynghoriadau (Bryman, 2008).[2]

Mae timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS wedi ceisio gwella cyfraddau ymateb trwy ddefnyddio codau QR ar ffurflenni ar-lein, ac mae rhai hefyd wedi cynnig ffurflenni wedi'u printio y gellir mynd â nhw adref a'u dychwelyd yn ddiweddarach er hwylustod. Mae tîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS mewn bwrdd iechyd arall yn rhoi tystysgrifau i athrawon ar ôl cwblhau sesiwn hyfforddi, "ond dydyn nhw ddim yn cael tystysgrif os nad ydyn nhw'n llenwi [y ffurflen adborth]".

Gall dyluniad a chynnwys ffurflenni adborth effeithio ar gyfraddau ymateb hefyd, "oherwydd po anoddaf y daw, neu'r hiraf y mae'n ei gymryd, y lleiaf tebygol yw y byddan nhw'n ei llenwi neu'n ei gwneud yn iawn". Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd y gallai rhai o'r mathau o gwestiynau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gasglu adborth fod yn broblemus – soniodd un arweinydd tîm fod y cwestiynau a ofynnir am effeithiau hyfforddiant "i gyd yn eithaf cadarnhaol … gwnewch beth bynnag a fynnwch o hynny o ran ymchwil".

## 3.4. Fframwaith gwerthuso

Llywiodd y canfyddiadau o'r cyfweliadau, yn ogystal â Damcaniaeth Newid Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, ddatblygiad y fframwaith gwerthuso a nodir yn Atodiad B.

Nododd y fframwaith gwerthuso hwn lawer o ddangosyddion meintiol ac ansoddol arfaethedig y gellid eu defnyddio i fesur gweithrediad ac effaith y gwasanaeth. Awgrymir ffyrdd posibl o gasglu data ar gyfer y dangosyddion hefyd, gan gynnwys dadansoddi data monitro a gesglir yn rheolaidd, arolygon meintiol, a mesurau ansoddol fel cyfweliadau ac adroddiadau naratif. Ar gyfer pob dull, manylir ar ffynonellau data posibl (e.e. timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, staff ysgol, byrddau iechyd). Dylid nodi mai fersiwn ddrafft yw'r fframwaith gwerthuso a ddatblygwyd yn y gwaith ymchwil hwn, er mwyn adeiladu arni a'i mireinio.

Mae rhai o'r dangosyddion a ddatblygwyd ar gyfer y fframwaith gwerthuso yn seiliedig ar ganlyniadau Damcaniaeth Newid Mewngymorth i Ysgolion CAMHS a ddatblygwyd o werthuso'r rhaglen beilot. Mae'r rhain yn cyfeirio at gynnydd mewn gwybodaeth, hyder a dealltwriaeth ymhlith athrawon. Gan nad oes mesurau sylfaenol ar gyfer y rhain yn debygol o fod ar gael, nid yw'n bosibl asesu unrhyw newidiadau ers cyflwyno Mewngymorth i Ysgolion CAMHS i'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gellir archwilio newidiadau hydredol yn y dyfodol unwaith y bydd metrigau wedi'u sefydlu a'u hailadrodd. Bydd mesurau ansoddol hefyd yn ddefnyddiol i roi cipolwg mwy manwl ar weithrediad ac effaith y gwasanaeth, yn ogystal â rhoi dangosyddion meintiol yn eu cyd-destun.

Bydd cydweithio parhaus rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a thimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS hefyd yn allweddol wrth sicrhau bod y gwasanaeth yn

---

[2] Bryman, A. (2008). Social research methods. 3ydd argraffiad. Rhydychen: Oxford University Press.

cael ei werthuso gyda'r trylwyredd priodol ac mewn ffordd sy'n ystyrlon ac yn ymarferol ar gyfer ei ddatblygiad parhaus.

# 4. Casgliadau ac argymhellion

Nod y gwaith ymchwil hwn oedd nodi ystyriaethau allweddol sy'n bwysig i werthuso sut y cafodd rhaglen Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ei gweithredu a'i heffaith, a datblygu fframwaith gwerthuso drafft yn amlinellu dangosyddion a ffynonellau data a allai fod yn sail i fonitro a gwerthuso'r rhaglen yn y dyfodol. I gyflawni hyn, cynhaliwyd cyfweliadau ag arweinwyr timau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS o bob un o'r saith bwrdd iechyd, a chasglwyd data am arferion monitro cyfredol, heriau cysylltiedig, a safbwyntiau ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol.

Fel rhan o'r dadansoddiad, nodwyd bod amrywiad mawr yn y gwasanaethau a gynigir gan dimau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS, yn ogystal â sut caiff y ddarpariaeth ei chyflwyno rhwng byrddau iechyd. Er enghraifft, mae sawl bwrdd iechyd yn cynnig cymorth uniongyrchol i blant a phobl ifanc, yn wahanol i rai eraill sydd ddim, ac mae gwahaniaethau hefyd yng ngraddau'r ddarpariaeth i ysgolion cynradd a cholegau addysg bellach. Hefyd, roedd y wybodaeth a gasglwyd gan fyrddau iechyd i werthuso eu gwasanaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn amrywio'n sylweddol, ac roedd gwahaniaethau mawr yn y ffordd yr oedd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu a'i rheoli.

Argymhelliad 1: Adroddodd arweinwyr Mewngymorth i Ysgolion CAMHS fod anghysondebau yn yr wybodaeth a gesglir rhwng byrddau iechyd ar hyn o bryd sy'n atal gwerthusiad cenedlaethol. Nodwyd hefyd sawl her o ran casglu, cofnodi, adfer a rhannu data am y gwasanaeth. Mae cyfle i wella a chysoni dulliau casglu a chofnodi data ar draws byrddau iechyd er mwyn hwyluso unrhyw waith monitro a gwerthuso sy'n gadarn yn genedlaethol. Gall hyn gefnogi'r broses o gasglu gwybodaeth yn gyson ar draws byrddau iechyd, datblygu mesurau safonol i gyflwyno gwasanaethau, a hwyluso dysgu ar y cyd i wella a chysoni arferion casglu a chofnodi data.

Argymhelliad 2: roedd canfyddiad clir bod Mewngymorth i Ysgolion CAMHS yn dylanwadu ar ddiwylliannau ysgolion i fod yn fwy agored a chefnogol i staff ysgol ac uwch arweinwyr i gydnabod pwysigrwydd llesiant emosiynol a meddyliol. Tynnodd y cyfweleion sylw at gyfyngiadau defnyddio gwybodaeth feintiol yn unig i gofnodi'r newidiadau diwylliannol cymhleth a hirdymor hyn, a phwysleisiodd y rhain yn gryf y defnydd o ddulliau ansoddol. Felly, dylai gwerthusiadau yn y dyfodol o wasanaethau Mewngymorth i Ysgolion CAMHS sicrhau eu bod yn mabwysiadu cymysgedd o ffyrdd i gofnodi sut câi'r gwasanaeth ei weithredu a'i effaith yn llawn, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio gwybodaeth ansoddol i gofnodi newidiadau diwylliannol ynghylch llesiant emosiynol a meddyliol mewn ysgolion.

Argymhelliad 3: dylid mireinio'r fframwaith gwerthuso drafft wrth i'r ddealltwriaeth o fodelau cyflawni Mewngymorth i Ysgolion CAMHS wella ar draws byrddau iechyd. Yn y lle cyntaf, gallai hyn gynnwys safbwyntiau o adroddiad sydd ar ddod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddisgrifio sut olwg sydd ar gynnig Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ar gyfer pob bwrdd iechyd. Disgwylir i'r adroddiad hwn nodi'r gorgyffwrdd a'r gwahaniaethau yn y ddarpariaeth rhwng byrddau iechyd a strwythur y timau sy'n cynnig y gwasanaethau hyn. Gall canfyddiadau'r adroddiad hwn lywio'r broses o nodi ffynonellau data a metrigau priodol i fesur agweddau craidd ar gyflwyno gwasanaethau sy'n gyson ar draws pob bwrdd iechyd,

gan gofnodi amrywiadau lleol mewn ymarfer lle maent yn bodoli hefyd. Bydd y dull hwn yn cefnogi asesiad mwy cywir ac ystyrlon o weithrediad ac effaith gyffredinol y gwasanaeth.

# Atodiad B: y fframwaith gwerthuso

## Gweithrediad

| Swyddogaeth | Dangosyddion Posibl | Dulliau posibl | Ffynonellau data posibl |
|---|---|---|---|
| Ymgysylltu ag ysgolion | Nifer/cyfran yr ysgolion sydd â gweithiwr cyswllt enwebedig | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amlder ymgysylltu â gweithiwr cyswllt | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amser ymateb y gweithiwr cyswllt | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Trosolwg o'r math o wasanaeth a gynigir | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Argaeledd gweithiwr cyswllt | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| | Rhwyddineb mynediad at weithiwr cyswllt | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| Cynnal hyfforddiant | Amlder cyfeirio at hyfforddiant sy'n bodoli | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a gynigir gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amlder cynnal hyfforddiant | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Presenoldeb staff ysgol mewn hyfforddiant | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Staff o wahanol rolau yn mynychu hyfforddiant | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar draws gwahanol fathau o ysgolion/rhanbarthau | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Bodlonrwydd staff ysgol gyda'r hyfforddiant a gynigir gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Bodlonrwydd ysgolion gydag unrhyw gyfeirio at hyfforddiant sy'n bodoli | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| Rhoi cymorth a chyngor i staff ysgol | Natur ac amlder y cymorth a roddir gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS (e.e., cyngor, cyfeirio ac ati) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amlder ymgynghoriadau â staff | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Gwahaniaethau yn y ddarpariaeth ar draws gwahanol fathau o ysgolion/rhanbarthau | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Staff o wahanol rolau a gefnogwyd | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Ceisio cyngor am amrywiaeth o faterion iechyd meddwl a llesiant (e.e. gorbryder, iselder, hunan-niweidio ac ati) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amser ymateb cyfartalog | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Amlder mynediad | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Bodlonrwydd ysgolion gyda'r cymorth a roddwyd gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Rhwyddineb mynediad | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| Mapio llwybrau gofal a hwyluso atgyfeiriadau | Nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau eraill a hwyluswyd gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Nifer yr atgyfeiriadau a fwriadwyd gan ysgolion na chawsant eu huwchgyfeirio | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amlder atgyfeiriadau yn ôl gwasanaeth (e.e. Meddyg Teulu, CAMHS) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Natur ac amlder atgyfeiriadau (e.e. sawl gwaith y cyfeiriwyd Plant/Pobl Ifanc oherwydd gorbryder, iselder ac ati?) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Gwahaniaethau ar draws gwahanol fathau o ysgolion/rhanbarthau | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Bodlonrwydd staff ysgol | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| Gweithio ar y cyd a rhannu data | Amrywiaeth o sefydliadau a gymerodd ran mewn cydweithio | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Defnyddioldeb canfyddedig cydweithio | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon (ar gyfer staff ysgol a Mewngymorth i Ysgolion CAMHS) | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Rhwyddineb rhannu data | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| **Lle bo'n berthnasol:** Cymorth i blant a phobl ifanc a theuluoedd | Amlder cymorth yn ôl math o ymgysylltu (e.e. 1:1, grwpiau, sesiynau galw heibio) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amrywiaeth ac amlder problemau iechyd meddwl a llesiant a gefnogwyd | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Rhwyddineb mynediad | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| | Bodlonrwydd gyda chymorth | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol, teuluoedd, plant a phobl ifanc |

## Effaith

| Swyddogaeth | Dangosyddion | Dulliau posibl | Ffynonellau data posibl |
|---|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael | Amlder mynediad at raglenni/hyfforddiant/cymorth sydd ar gael yn lleol dros amser | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Dealltwriaeth staff ysgol o'r amrywiaeth o gyfleoedd | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| | Bodlonrwydd â rhaglenni/hyfforddiant/cymorth sydd ar gael yn lleol | Cwestiynau arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl math o ysgol, rhanbarth | Dadansoddiad o'r uchod | |
| Gwybodaeth a hyder am iechyd meddwl a llesiant | Nifer/amlder atgyfeiriadau y flwyddyn o ysgolion o'i gymharu â chyn Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Data monitro | Llywodraeth Cymru/byrddau iechyd |
| | Hyder staff ysgol yn eu dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl a llesiant<br>Hyder staff yr ysgol wrth ymdrin â phroblemau iechyd meddwl a llesiant disgyblion<br>Cydnabyddiaeth/gwybodaeth/dealltwriaeth staff ysgol o faterion iechyd meddwl a llesiant<br>Dealltwriaeth staff ysgol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella gwybodaeth a hyder presennol<br>Canfyddiad staff ysgol eu bod yn gallu darparu ar gyfer anghenion addysgol eu disgyblion<br>Dealltwriaeth staff ysgol o'r hyn sydd angen ei wneud i wella gwybodaeth a hyder presennol<br>Canfyddiad staff ysgol eu bod yn gallu darparu ar gyfer anghenion addysgol eu disgyblion | Cwestiynau arolwg/cyfweliad meintiol ac ansoddol, cyfrifon naratif, asesiadau Canlyniadau Seiliedig ar Nodau (GBOs) | Staff ysgol |
| | Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl math o ysgol, rhanbarth | Dadansoddiad o'r uchod | |
| Atgyfeiriadau | Nifer/amlder atgyfeiriadau y flwyddyn o ysgolion o'i gymharu â chyn Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Data monitro | Llywodraeth Cymru/byrddau iechyd |
| | Nifer/amlder ceisiadau atgyfeirio a wrthodwyd gan ysgolion y flwyddyn o'i gymharu â chyn Mewngymorth i Ysgolion CAMHS | Data monitro | Byrddau iechyd |
| | Ymwybyddiaeth staff ysgol o atgyfeiriadau a llwybrau gofal | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| | Ymwybyddiaeth staff ysgol o rolau a chyfrifoldebau arweinwyr enwebedig mewn systemau lleol | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol |
| | Hyder staff ysgol wrth gyfeirio disgyblion at wasanaethau arbenigol lle bo angen | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl math o ysgol, rhanbarth | Dadansoddiad o'r uchod | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhannu arferion effeithiol | Amrywiaeth o strwythurau ar waith i rannu arferion effeithiol o fewn lefelau ac ar eu traws (e.e. lefel yr ysgol, lefel y bwrdd iechyd) | Data monitro, cwestiwn arolwg, cwestiwn cyfweliad ansoddol | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| Rhannu data | Nifer y trefniadau rhannu data (o'i gymharu â chyn Mewngymorth i Ysgolion) | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Amrywiaeth o drefniadau rhannu data presennol | Data monitro, cwestiwn arolwg, cwestiwn cyfweliad ansoddol | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Effeithiolrwydd canfyddedig trefniadau rhannu data presennol | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| Straen athrawon | Amlder staff yn gofyn am gymorth iddynt eu hunain gan Mewngymorth i Ysgolion CAMHS dros amser | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Straen staff ysgol o'i gymharu â chyn i Gynllun Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ddechrau | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl math o ysgol, rhanbarth | Dadansoddiad o'r uchod | |
| Diwylliant ysgolion | Canfyddiad tîm Mewngymorth i Ysgolion CAMHS o newid diwylliant | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Y derbyniad i ddarpariaeth Mewngymorth i Ysgolion CAMHS ymhlith staff ysgol | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Presenoldeb mewn hyfforddiant dros amser | Data monitro | Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Canfyddiad staff ysgol o newid diwylliant | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Staff ysgol |
| | Newidiadau i bolisïau ysgolion sy'n berthnasol i iechyd meddwl a llesiant | Cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad | Staff ysgol, Mewngymorth i Ysgolion CAMHS |
| | Canfyddiad disgyblion o newid diwylliant | Cwestiwn arolwg, cwestiwn ansoddol mewn cyfweliad, straeon | Plant/Pobl Ifanc |
| | Gwahaniaethau mewn effaith yn ôl math o ysgol, rhanbarth | Dadansoddiad o'r uchod | |